



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Pecyn cymorth rhaglen imiwneiddio feirws syncytiol anadlol (RSV) ar gyfer Ymarferwyr Gofal Iechyd



Bwriedir i'r ddogfen hon gefnogi ymarferwyr gofal iechyd wrth iddynt gynllunio eu rhaglen imiwneiddio RSV.



Pwyntiau allweddol

- Dwy raglen imiwneiddio RSV rheolaidd sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn ar hyn o bryd.

✓ Y rhaglen i oedolion hŷn ar gyfer:

- Oedolion 75 oed a hŷn
- Holl breswylwyr cartrefi gofal oedolion hŷn, waeth beth fo'u hoedran.
- Oedolion 65-74 oed sydd yn imiwnoataliedig neu â chlefyd anadlol cronig. Am restr o'r cyflyrau cymwys, gweler tudalen 7 o **Feirws syncytiol anadlol : y llyfr gwyrdd - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)

✓ Y rhaglen brechu mamau i amddiffyn babanod:

- Dylid cynnig y rhaglen brechu mamau i amddiffyn babanod i bob menyw feichiog o 28 wythnos y beichiogrwydd ymlaen.
- Mae menywod beichiog yn parhau i fod yn gymwys i gael eu brechu nes eu bod yn cael eu rhyddhau o'r gwasanaethau mamolaeth. Fodd bynnag, argymhellir brechu prydlon o 28 wythnos neu'n fuan wedi hynny i roi'r amddiffyniad gorau posibl o'r enedigaeth.
- Dylid cynnig brechiad ym mhob beichiogrwydd i amddiffyn pob babi rhag RSV.

✓ Ar gyfer y ddwy raglen

- Sicrhewch fod staff sy'n rhoi'r brechiad RSV wedi derbyn hyfforddiant priodol ar roi'r brechiad, gan gynnwys gwneud asesiad ymarferol ohonynt.
- Lle bo modd, tynnwch sylw at y cleifion sy'n gymwys ar y system, er mwyn hwyluso brechu pan fo'r cyfle yn codi.

Y brechlyn

- Y brechlyn RSV a awdurdodwyd i'w ddefnyddio yn y rhaglenni oedolion hŷn a mamau yw brechlyn Abrysvo® RSV (Pfizer Limited).
- Mae brechlynnau ar gael i'w harchebu trwy godau ar wahân ar ImmForm ar gyfer y rhaglenni priodol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu o'r stoc cywir. Anelwch at gael dim mwy na phythefnos o stoc i osgoi gwastraff.
 - Rydym yn annog brechwyr i wyllo'r fideo ar sut i baratoi'r brechlyn cyn rhoi'r brechlyn RSV am y tro cyntaf: **Preparation | Abrysvo®▼ (respiratory syncytial virus vaccine) | PfizerPro UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
 - Gwnewch yn siŵr bod unrhyw adweithiau niweidiol yn cael eu hadrodd drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn: **Cerdyn Melyn | Gwneud meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn fwy diogel** (safle allanol, Saesneg yn unig)

Gwiriwch eich gwybodaeth: hyfforddiant a dysgu

- Darperir gwybodaeth am hyfforddiant imiwneiddio a setiau sleidiau rhaglen frechu RSV ar y **Dudalen Adnoddau Hyfforddi a Digwyddiadau**
- Os ydych newydd gofrestru i imiwneiddio bydd angen i chi gwblhau'r rhaglen Imiwneiddio ar gyfer imiwneiddwyr newydd, sydd ar gael yma: **e-Ddysgu-Imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Atodiad A: Offeryn asesu cymhwysedd imiwneiddwyr** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Darllenwch **Feirws syncytiol anadlol: y llyfr gwyrdd - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Darllenwch **Rhaglen feirws syncytiol anadlol (RSV) UKHSA: gwybodaeth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol** (safle allanol, Saesneg yn unig)

- Darllenwch Gylchlythyrau Iechyd Cymru:

- **Gwybodaeth ddiweddaraf am raglen frechu RSV 2026 | WHC/2026/020** (safle allanol)
- Darllenwch lythyr y Prif Swyddog Meddygol ar y brechlyn RSV: **Llythyr y Prif Swyddog Meddygol - Brechlyn RSV (Awst 2025) | Llywodraeth Cymru** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- I weld Cylchlythyrau Iechyd Cymru blaenorol ynghylch RSV, ewch i: **Cylchlythyrau Iechyd: 2024 i 2027 | LLYW.CYMRU** (safle allanol)
- Rhannwch yr hyn a ddysgwyd gyda phawb sy'n ymwneud â'r rhaglen, gan gynnwys staff derbynfa sy'n trefnu apwyntiadau. Ystyriwch ddefnyddio'r **setiau sleidiau RSV Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gynnal sesiwn hyfforddi a gwybodaeth i gydweithwyr.

Adnoddau clinigol ychwanegol

- **Cysylltiadau Byrddau Iechyd Cymru**
- **Cwestiynau Cyffredin (FAQs)** (Saesneg yn unig)

Y Fframwaith Cyfreithiol

- Nodwch nad yw templedi PGD a VGD yn gyfreithlon i'w defnyddio nes eu bod wedi'u haddasu a'u hawdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol. I weld templedi PGD a VGD, ewch i: **Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru** (safle allanol).

Deunyddiau cyfathrebu i gefnogi eich ymgyrch

Cymerwch olwg ar **Lyfrgell Asedau Iechyd Cyhoeddus Cymru (brandkitapp.com)** (bydd angen i chi gofrestru y tro cyntaf y byddwch yn defnyddio'r llyfrgell). Yma fe welwch adnoddau y gallwch eu lawrlwytho i gefnogi eich ymgyrch a'u dangos ar sgriniau mewn ystafelloedd aros ac ar wefannau.

Archebu neu lawrlwytho adnoddau am ddim

I archebu adnoddau **am ddim** - fel taflenni gwybodaeth i gleifion - i gefnogi clinigau brechu, ewch i:
Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae adnoddau i gleifion ar gael yma:

Gwybodaeth am frechu feirws syncytiol anadlol (RSV) - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae adnoddau proffesiynol ar gael yma:

Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Yn feichiog?
Diogelu chi a'ch babi

Gall y brechiadau canlynol yn ystod beichiogrwydd helpu i'ch cadw chi a'ch babi yn ddiogel rhag salwch difrifol.

- Y pas (pertussis)
- Feirws syncytiol anadlol (RSV)
- Y fliw

Gofynnwch i'ch bydrwydd neu eich practis meddyg teulu os ydych chi'n hysbysu hyn.

Pregnant?
Protect you and your baby

The following vaccinations in pregnancy can help keep you and your baby safe from serious illness.

- Whooping cough (pertussis)
- Respiratory syncytial virus (RSV)
- Flu (influenza)

Ask your midwife or GP surgery about these vaccines.

Agwedd i'ch gael rhagor o wybodaeth am feichiogrwydd ystod beichiogrwydd

Scan i'ch gael rhagor o wybodaeth am feichiogrwydd ystod beichiogrwydd

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Ydych chi'n 65 oed neu'n hŷn?

With i ni fynd yn hŷn, gall rhai heintiau fod yn fwy difrifol. Mae brechiadau yn ffordd syml a diogel o'ch amddiffyn chi eich hun.

Brechiadau

Brechiadau	Ydych chi'n gwybys os ydych chi yn y gwneud oedran canlynol:
Pneumococcal	65 oed a hŷn
Flu	65 oed a hŷn
Y fliw	65 oed, neu rhwng 70 a 79 oed
Feirws syncytiol anadlol (RSV)	75 oed a hŷn, neu 65 i 74 oed yn achos rhai cyffwrdd iechyd
COVID-19	75 oed a hŷn

Are you aged 65 or older?

As we get older, some infections can be more serious. Vaccines are a safe and simple way to protect yourself.

Vaccine	You are eligible if you are aged:
Pneumococcal	65 and over
Flu	65 and over
Shingles	65 or aged between 70 and 79
Respiratory syncytial virus (RSV)	75 and over, or 65 to 74 with certain health conditions
COVID-19	75 and over

I gael rhagor o wybodaeth:

- cyswllt i'ch practis meddyg teulu
- ewch i ic.gig.cymru/brechiadau-oedolion
- agwedd y cod QR
- cyswllt i'ch rhestr oedolion eidd Bwrdd Iechyd Lleol ic.gig.cymru/ygyfthadau-brechu

To find out more:

- contact your GP surgery
- visit pho.nhs.uk/adult-vaccinations
- scan the QR code
- contact your Local Health Board immunisation team: pho.nhs.wales/vaccine-contacts

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Sut i amddiffyn eich hun a'ch babi

Gwybodaeth am frechiadau yn ystod beichiogrwydd

Agwedd i'ch gael rhagor o wybodaeth am feichiogrwydd ystod beichiogrwydd

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Brechu rhag feirws syncytiol anadlol (RSV) ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg uwch

Gallwch gael brechlyn RSV os ydych chi:

- yn 75 oed neu'n hŷn
- yn byw mewn cartref gof i babi hŷn, neu
- rhwng 65 a 74 oed ac yn dioddef o gyflwr iechyd panadol.

Agwedd i'ch gael rhagor o wybodaeth am feichiogrwydd ystod beichiogrwydd



Sgania fi am ragor o wybodaeth ar RSV

Atgoffwch gleifion bod y brechiad RSV yn ddiogel ac yn effeithiol a bydd yn helpu i gynnig amddiffyniad iddynt hwy a'u hanwyliaid.



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Fersiwn 4 | Awst 2026
© Ymddiriedolaeth y GIG
Iechyd Cyhoeddus Cymru



GIG Cymru
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales